# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

**Cadeirydd:** Gethin Pyrs

**Pwyllgor Blynyddol nos Lun Mai 15fed 2023**

## Cofnodion

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan yr Is-gadeirydd Alun Owen
2. **Ymddiheuriadau:** Dim
3. **Cofnodion Blynyddol 2022-23:** Cynigwyd yn gywir gan ER gyda DE yn eilio.
4. **Materion yn codi:** System Cyfrifon/rheolau 2022-23 – Cafwyd yn ddigonol a phenderfynwyd parhau a'r system bresennol.

   Polisi Cydraddoldeb:

   i) Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rhwymedigaethau weithredu'n deg, yn gyfiawn ac yn unol â'r gyfraith.

   ii) Yn benodol, ni fydd unrhyw aelod neu weithiwr posibl yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, hil neu anabledd. Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas yn ymestyn i gysyniad o gyfle cyfartal i gynnwys gwahaniaethau ar sail credoau crefyddol neu wleidyddol neu gyfeiriadedd rhywiol.

   iii) Mae'r polisi hwn yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.

   iv) Bydd yn cael ei adolygu ac os oes angen, yn cael ei ddiwygio yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.
5. **Ceisiadau am arian:**
   - Clwb Gofal Ysgol Pentrefoelas
   - Ambiwlans Awyr Cymru
   - Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin
   - Tŷ Gobaith Hosbis i Blant
   - Elusen Cancr Plant
   - Pwyllgor Rhanbarth yr Urdd yng Nghonwy
   - Cerebal Palsy Cymru
   - Ysgol Pentrefoelas – ymweliad a Llangrannog

   Penderfynwyd anfon siec o **£120.00** gyda siec rhif **100384** i helpu 4 plentyn gyda'r costau'r i fynd ar ymweliad Preswyl i Langrannog. Cynigwyd hun gan ER gyda GJ yn eilio a phawb yn gytûn. (S133).

   Penderfynwyd cefnogi cais Tŷ Gobaith Hosbis i Blant yng Nghonwy. Cynigiodd DE gydag AO yn eilio a phawb yn gytûn anfon **£100.00** gyda siec rhif 1**00385** (133)
6. **Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Mudiadau:**

   i) Edmund Rees (Elusen Ysbyty) popeth yn rhedeg yn esmwyth

   ii) Gerallt Jones (Pwyllgor Ganolfan) ddim wedi bod mewn cyfarfod

   iii) Gwynfor Roberts (Foelas Cyf) dim i'w adrodd yn ôl

   iv) Edmund Rees (Un Llais Cymru) dim adroddiad

   v) Gari Jones (Llywodraethwyr) plant wedi mynychu amryw weithgaredd, yr ysgol wedi derbyn 'poly tunnell' newydd. Oriau rhai o'r staff wedi cael ei dorri. Nifer y disgyblion yn dal i fynnu. Llongyfarchwyd y plant ar ei llwyddiant gyda'r gan actol yn eisteddfod yr Urdd a dymunwyd yn dda iddynt yn y Genedlaethol.

   vi) Edmund Rees (Llyfrgell) rhannu dogfen am sefydlu 'Charitable Incorporated Organisation', trafod maint y pwyllgor rheoli.
7. **Penodi Swyddogion:**

   | | | | |
   |---|---|---|---|
   | a) | Cadeirydd | - | Alun Owen |
   | b) | Is-gadeirydd | - | Gari B Jones |
   | c) | Elusen Ysbyty Ifan | - | Edmund Rees |
   | ch) | Pwyllgor y Ganolfan | - | Gerallt Jones |
   | d) | Foelas Cyf | - | Gwynfor H Roberts |
   | dd) | Un Llais Cymru | - | Edmund Rees |
   | e) | Llywodraethwyr | - | Gari B Jones |
   | f) | Llyfrgell | " | Edmund Rees |
8. **Trosglwyddwyd** y Gadeiryddiaeth gan Gethin Pyrs i Alun Owen
9. **Derbyniwyd y Gadeiryddiaeth** a diolchwyd i Gethin Pyrs am ei arweiniad drwy gydol y flwyddyn

Arwyddwyd___________________________ Cadeirydd Dyddiad___________________